SUL CYFFREDIN 10

**2 SAMUEL 6:1-5, 12B-19; SALM 24;
EFFESIAID 1:3-14; MARC 6:14-29**

● **Gweddi agoriadol**

Dduw Greawdwr,
bendithiaist ni
â gwawr y dydd newydd hwn,
ym mhelydrau cynnes haul
neu law ysgafn.
Derbyn, os gweli'n dda,
ein hoffrwm moliant
am dy ddarpariaeth rasol
a'th gariad cadarn.

● **Moliant**

Ar ein taith ffydd,
rwyt gyda ni wrth i ni gerdded,
yn annog, yn dysgu,
yn ein codi pan lithrwn,
a'n harwain ar hyd y ffordd.
Ac ar ben y mynydd
yn gorffwys dro,
doi yn nes fyth
ac eistedd gyda ni yn dawel.

Am brofiadau felly
dygwn ddiolch,
a gofyn y byddi ar ein taith
yn ein harwain
nid mewn porfeydd bras yn unig
ond i dir uwch hefyd,
lle cawn orffwys gyda thi
a chael ein hadnewyddu.

● **Cyffes**
Arglwydd Dduw, yn dy bresenoldeb
rydym yn ymwybodol o'n pechod,
ein balchder,
  hunanoldeb,
    diffyg gostyngeiddrwydd,
yr awydd i fynd ein ffordd ein hunain,
  nid dy un di.

Pentyrraist arnom
gyfoeth dy ras,
a dyma ninnau yn gwastraffu
y rhodd werthfawr
am elw dros dro.

Maddau ac adnewydda ein ffydd,
er mwyn i'n bywydau ddwyn
gogoniant i'th enw
ac nid dagrau i'n llygaid.

● Diolch

Diolch, Arglwydd,
am ein hatgoffa,
wrth i ni sefyll yn gwrtais
yn canu emynau
ac adrodd litwrgi,
i'th was, Dafydd,
pan gyffrowyd ef,
godi ei lais,
chwifio ei ddwylo
a dawnsio o'th flaen,
neidio a dawnsio o'th flaen,
addoli â'i
gorff,
  enaid
    ac ysbryd.

Rhyddha ni, Arglwydd,
  ychydig bach,
i fynegi yn fwy agored
ddiolch ein calonnau.